Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol a barn archwilio

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o Ddatganiad Blynyddol **Cyngor Cymuned Pentrefoelas** ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025. Cynhaliwyd fy archwiliad ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru ac yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) a chanllawiau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Barn archwilio: Amodol

Heblaw am y materion a adroddir isod yn fy Sail ar Amod, ar sail fy archwiliad, yn fy marn i nid oes unrhyw faterion wedi dod i'm sylw i roi achos i bryder bod, mewn unrhyw agwedd materol, y wybodaeth a adroddir yn y Ffurflen Flynyddol hon:

- nid yw wedi'i baratoi yn unol ag arferion priodol;
- nad yw gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol perthnasol wedi'u bodloni;
- nid yw'n gyson â threfniadau llywodraethu'r Cyngor; a
- nad oes gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

Sail ar Amod

Datganiad Cyfrifyddu

Ni allaf ddod i'r casgliad a yw'r Datganiad Cyfrifyddu yn cyflwyno derbyniadau a thaliadau a sefyllfa ariannol y Cyngor yn briodol ai peidio:

- Nid yw'r Cyngor wedi darparu esboniad llawn a meintiol o amrywiadau rhwng y cyfrifon cyfredol a'r blynyddoedd blaenorol. Felly, ni allaf ddod i'r casgliad a yw'r Datganiad Cyfrifyddu yn gofnod llawn o dderbyniadau a thaliadau'r Cyngor ai peidio.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Yn fy marn i, nid yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn gyson â rheolaethau mewnol a threfniadau llywodraethu y Cyngor ar gyfer y flwyddyn:

- Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor greu a chyhoeddi cynllun ar gyfer hyfforddiant cynghorwyr a staff. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau statudol ar hyn, sy'n nodi bod yn rhaid i'r cynllun gael ei gymeradwyo gan y cyngor llawn ac yn cynnwys manylion am y math o hyfforddiant, niferoedd cyfranogwyr, amserlen, a chost. Nid yw'r Cyngor wedi bodloni ei rwymedigaeth o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i greu a chyhoeddi cynllun hyfforddi ar gyfer aelodau.

Nid oes unrhyw faterion pellach yr hoffwn eu tynnu at sylw'r Cyngor.